WILLIAMS, ELIEZER (1754 - 1820), clerigwr, awdur, ac athro

Enw: Eliezer Williams
Dyddiad geni: 1754
Dyddiad marw: 1820
Priod: Jane Amelia Nugent Williams (née Armstrong)
Priod: Anne Adelaide Williams (née Grebert)
Plentyn: St. George Armstrong Williams
Rhiant: Mary Williams (née Jenkins)
Rhiant: Peter Williams
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr, awdur, ac athro
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Thomas Iorwerth Ellis

Ganwyd ym Mhibwr Lwyd ger Caerfyrddin, a'i fedyddio yn eglwys Llandyfaelog, 4 Hydref 1754, mab hynaf (ac ail blentyn) Peter Williams (1723 - 1796) a Mary ei wraig. Cafodd addysg yn ysgol ramadeg Caerfyrddin, ac ymaelodi ym Mhrifysgol Rhydychen o Goleg Iesu 3 Ebrill 1775. Urddwyd ef yn ddiacon gan yr esgob Yorke o Dyddewi, 3 Awst 1777, a'i drwyddedu i guradiaeth Tre-lech; yna aeth yn gurad i Tetsworth yn swydd Rhydychen. Cafodd ei B.A. yn 1778, a'i urddo'n offeiriad yn Eglwys Crist, Rhydychen, 20 Rhagfyr. Yna bu'n athro yn ysgol ramadeg Wallingford, Berkshire, ac yn gurad Acton yn yr un ardal; o 1780 hyd 1782 bu'n gaplan ar y llong *Cambridge*. Aeth yn athro teulu i iarll Galloway, a bu gyda'r teulu am ryw wyth mlynedd; yn y cyfamser penodwyd ef gan yr arglwydd ganghellor (Thurlow) yn ficer Cynwyl Gaeo a Llansawel yn Sir Gaerfyrddin, a sefydlwyd ef 14 Medi 1784. Bu'n byw yn Llundain ac yn gwasnaethu yn Chadwell, Essex, ac yna dychwelodd i Gymru. Ar 14 Gorffennaf 1805 sefydlwyd ef yn ficer Llanbedr-Pont-Steffan, a bu yno hyd ei farwolaeth 20 Ionawr 1820. Claddwyd ef yn Llanbedr Pont Steffan.

Ysgrifennodd nifer o weithiau yn Saesneg (gweler y rhestr yn *D.N.B.*); cyhoeddwyd casgliad o'r rhain yn 1840 gan ei fab, St. George Armstrong Williams. Yn ystod ei amser yn Llanbedr Pont Steffan, agorodd ysgol yno a pharatoi dynion ieuanc ar gyfer urddau eglwysig; bu llwyddiant mawr ar y gwaith hwn. Priododd (1), 1792, Anne Adelaide Grebert, o Nancy, Lorraine, Ffrainc; bu iddynt un plentyn, a fu farw'n faban; bu'r fam farw yn 1796; (2), yn niwedd 1796, Jane Amelia Nugent, merch St. George Armstrong, Armaduff, ger Drumsna, Leitrim, Iwerddon; bu iddynt wyth o blant. Bu farw ei ail wraig 31 Rhagfyr 1809.

Awdur

Thomas Iorwerth Ellis, (1899 - 1970)

Ffynonellau

Gomer M. Roberts, *Bywyd a Gwaith Peter Williams* (Caerdydd 1943)

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Oxford Dictionary of National Biography

Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru (1870)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 27437465

Wikidata: Q5360783

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.